



## Annwyl Riant / Warcheidwad,

Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl wythnos nesaf, gan obeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau'r haf. Rydym eisoes wedi danfon gwybodaeth ynglŷn â phryd y dylai eich plentyn fynychu'r ysgol wythnos nesaf ac rydym wedi cynnwys gwybodaeth bwysig mewn llythyr a ddanfonwyd trwy Schoop ar Orffennaf 27ain. SICRHEWCH EICH BOD WEDI DARLLEN YR WYBODAETH HON YN OFALUS.

I grynhoi, dyma'r prif newidiadau i'r drefn arferol:

### GOLLWNG YN Y BORE A CHASGLU YN Y PRYNHAWN:

(\*Bydd plant y bysiau yn dilyn eu trefn/amseroedd arferol.)

	GOLLWNG YN Y BORE	CASGLU YN Y PRYNHAWN
Teuluoedd		3:05pm O'r iard ganol fel arfer
Plant y Cyfnod Sylfaen: (Meithrin i flwyddyn 2) Plant sydd heb frawd neu chwaer yng Nghyfnod Allweddol 2.	Gall eich plentyn gyrraedd unrhyw bryd rhwng 8:45 a 9:10.	3:15pm O'r darn o flaen yr ysgol wrth y tri arth
Cyfnod Allweddol 2: (Blwyddyn 3 - blwyddyn 6) Disgyblion sydd heb frawd neu chwaer yn y Cyfnod Sylfaen.		3:25pm O'r iard ganol fel arfer

- Bydd system un ffordd yn gweithredu a rhaid i hwn gael ei dilyn drwy'r amser.
- Bydd yr holl ddisgyblion, **heblaw am blant Meithrin y bore a'u chwiorydd / brodyr**, yn dod mewn i'r ysgol trwy'r prif gatiau. Gall disgyblion **CA2** (Blwyddyn 3-6) gerdded yn annibynnol i'r iard ganol, o dan oruchwyliaeth staff, gan ddilyn yr arwyddion coch. Bydd plant y **CS** (Derbyn i flwyddyn 2) a'u rhieni / gwarchodwyr yn dilyn yr arwyddion melyn o flaen yr ysgol, lle byddant yn cael eu trosglwyddo i ofal aelod o staff.

- **Ni fydd mynediad i'r ysgol trwy'r gatiau wrth ymyl y maes parcio staff.**

- **Plant y feithrin** – Bydd mynediad i'r feithrin trwy'r gatiau dwbl tu ôl i adeilad y feithrin.

**Meithrin y bore** – Os oes gan blentyn yn y feithrin frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol, ewch â'r plant drwy'r gatiau tu ôl i'r feithrin a bydd y plentyn hŷn yn cael ei dywys i'r brif adeilad gan aelod o staff. Byddwch yn casglu'ch plentyn am 11:30 trwy'r un gatiau.

**Meithrin y prynhawn** – Byddwch yn mynd â'ch plentyn mewn i'r feithrin trwy'r gatiau dwbl tu ôl i'r feithrin. Os oes gan blentyn yn y feithrin frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol, casglwch y plentyn hynaf yn gyntaf (o'r iard ganol) a gallwch gerdded i adeilad y feithrin ar hyd y ramp a gadael trwy'r gatiau dwbl tu ôl i'r feithrin.

- Dim ond un rhiant / gwarchodwr gall ddod â'i blentyn / plant ar dir yr ysgol er mwyn gollwng neu gasglu'r plentyn.
- Gallwch ddefnyddio'r system 'gollwng ffwrdd' ar y cylchfan yn y bore **ond** dim ond y rheiny sydd â phlant sy'n gallu gadael y ceir yn annibynnol dylai ei defnyddio. Nid ydym yn gallu cael unrhyw draffig yn crynhoi ar dir yr ysgol neu ar y ffordd gyferbyn. Os nad ydy eich plentyn yn gallu cerdded o'r car yn annibynnol, dylid parcio oddi ar dir yr ysgol a hebrwng eich plentyn mewn.

## TRAFNIDIAETH YSGOL

Dylai teuluoedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth o'r awdurdod yn uniongyrchol.

## CINIO / BYRBRYD YSGOL

Yn ystod y pythefnos cyntaf, bydd cinio ysgol yn cael ei weini mewn ffurf pecyn cinio e.e. brechdanau, yn hytrach na chinio twym neu stondin salad. Bydd y pecynnau cinio hyn yn cael eu darparu ar gyfer y disgylion hynny sy'n gymwys ar gyfer PYDd.

Ni fydd stondin ffrwyth yn ystod amser egwyl am nawr.

## CLWB PLANT Y TRI ARTH

Ni fydd Clwb Plant y Tri Arth ar ddechrau'r tymor ond gobeithiwn allu cynnig y ddarpariaeth hon o'r 14eg o Fedi ymlaen.

## GWISG YSGOL

Rydym yn annog y disgylion i wisgo gwisg ysgol ac rydym yn disgwl i'r disgylion fod yn eu gwisg ysgol llawn erbyn diwedd yr hanner tymor cyntaf.

## PRYDLONDEB / MYNEDIAD I SAFLE'R YSGOL

Sicrhewch bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 9:10 a'i fod yn cael ei gasglu ar yr amser cywir. Ni fydd hawl gyda rhieni / gwarchodwyr i gael mynediad i'r ysgol felly bydd angen cysylltu gyda'r ysgol trwy alwad ffôn neu drwy e-bost os ydych am siarad gydag aelod o staff.

## EITEMAU O ADRE'

Yr unig adnoddau fydd angen ar ddisgylion yw byrbryd, diod, pecyn cinio a gwisg Addysg Gorfforol. Bydd unrhyw adnoddau eraill yn cael eu darparu gan yr ysgol felly ni fydd angen cas pensil ayyb arnynt. NI DDYLID DANFON UNRHYW LYFRAU DARLLEN NEU UNRHYW WAITH SYDD GAN Y DISGYBLION ADREF NOL I'R YSGOL TAN I CHI GAEL CYFARWYDDYD I WNEUD HYNNY.

Rydym yn gwerthfawrogi bod llawer o newidiadau i'r drefn arferol ac rydym yn deall bod y systemau gollwng ffwrdd / casglu yn wahanol iawn i'r arfer ond bydd digon o aelodau o staff ar ddyletswydd yn ystod yr wythnosau cyntaf i sicrhau ein bod ni i gyd yn dod i arfer â'r drefn newydd.

Cofiwch edrych ar wefan Torfaen hefyd, er mwyn gweld atebion i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol.

*Yn gywir,*

*Miss Evans a staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân*



28/08/20

**Dear Parent / Guardian,**

We look forward to welcoming you all back next week and hope that you have had an enjoyable summer break. We have already sent notification of when your child should attend next week and have provided important information in a letter sent via schoop on the 27th July. PLEASE ENSURE THAT YOU HAVE READ THIS INFORMATION CAREFULLY.

To summarise, these are the main points regarding the changes to normal school arrangements:

#### **MORNING DROP OFF AND AFTERNOON COLLECTION**

**(Pupils travelling on a bus will stick to their normal times.)**

	Morning Drop-Off	Afternoon Collection
Families		
Foundation Phase (Nursery to Year 2) Children who do not have a sibling in Key Stage 2.	Your child/ren should arrive anytime between 8:45am and 9:10am	3:05pm from the middle yard as normal
Key Stage 2 (Year 3 to Year 6) Pupils who do not have a sibling in the Foundation Phase.		3:15pm from the front of the school by the Three Bears
		3:25pm From the middle yard as normal

- There will be a one-way system in operation and this must be followed at all times.
- All pupils **excluding Morning Nursery** children and their siblings will enter the school site via the main gates. **Key Stage 2** pupils (Year 3 to 6) will walk independently to the middle yard under the supervision of staff following the red arrows. **Foundation Phase** children (Reception to Year 2) and their parents/guardians will follow the yellow arrows to the front of the school where they will be transferred into the care of members of staff.
- **There will be no access to the school site via the gate by the staff car park.**
- **Nursery pupils** - The Nursery will be accessed via the double gates to the rear of the building.  
**Morning Nursery** – If a nursery child has an older sibling in the main school, please access the school site via the double gates to the rear of the Nursery building with both/all children. The older child/ren will be escorted to their class by a member of staff.  
**Afternoon Nursery** – You should drop your child to nursery through the double gates behind the nursery building. If a nursery child has an older sibling in the main school, please collect the older sibling first at the end of the day, make your way up to the Nursery Building via the ramp and leave the school site via the double gates to the rear of the Nursery building.
- Only one parent/guardian can bring their child/children to the site and collect them at the end of the day.

- The ‘drop off’ system on the roundabout will be operational in the morning **but** can only be used by those whose children can alight from their vehicles independently. We cannot have any congestion on site or on the road outside. If your child is unable to walk independently from the car, you should park offsite and assist your child into school.

## SCHOOL TRANSPORT

Families will have received notification directly from the authority.

## SCHOOL DINNERS/SNACK

For the first two weeks of term, the school dinners will be in the form of a packed lunch e.g. sandwiches as opposed to a hot meal or salad. These will also be provided for those eligible for Free School Meals.

The Fruit Tuck shop will NOT be operating at present.

## CLWB PLANT Y TRI ARTH

This will not be operational at the start of term but it continues to be our aim to resume this provision on the 14<sup>th</sup> September.

## SCHOOL UNIFORM

This is to be encouraged and we expect all pupils to be in full uniform by the end of the first half term.

## PUNCTUALITY/ACCESS TO SITE

Please ensure that your child arrives in school by 9:10am and is collected at the correct time. Parents/Guardians will not have access to the school building and will need to contact the school office by telephone or e-mail if they need to speak to a member of staff.

## ITEMS FROM HOME

Pupils should only bring their snack, drink, packed lunch and P.E. kit to school. All other resources will be provided by the school so no pencil cases etc from home will be needed. PLEASE DO NOT RETURN ANY READING BOOKS OR WORK UNDERTAKEN DURING THE LOCKDOWN PERIOD UNTIL YOU ARE ADVISED TO DO SO.

We appreciate that there are many changes to the normal routine and we understand that the drop off / collection systems are very different but we would like to reassure parents / guardians that there will be enough members of staff on duty during the first few weeks to ensure that we all familiarise ourselves with the new systems.

Please also refer to the Torfaen website for frequently asked questions about returning to school.

*Yours sincerely,*

*Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân*